Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Ionawr 2022

1. Cefndir

Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16[1] (y Bil) i Dŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai 2021. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.

2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Hydref 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 26 Hydref 2021, lle cafodd ei ddarlleniad cyntaf a'i ail ddarlleniad. Daeth Cyfnod Pwyllgor y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 7 Rhagfyr 2021. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd wedi'i gyhoeddi eto.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

4. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd[2] mewn perthynas â'r Bil.

5. Ar 29 Hydref 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol [3] (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd[4]. Cyflwynwyd hwn i Dŷ'r Cyffredin yn dilyn ei ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi.

[1] Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 5)

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Gorffennaf 2021

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Hydref 2021

[4] Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 (Bil 176)

6. Adroddwyd ar y Memoranda hyn ar 24 Tachwedd 2021.[5] [6]

7. Mae paragraffau 8 i 16 o'r adroddiad hwnnw yn nodi'r cymalau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru, ar y pwynt hwnnw mewn amser, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle roedd anghytundeb yn codi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

8. Ar 10 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[7] pellach (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r gwelliannau a drafodwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 11 Ionawr 2022.[8]

Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2

10. Mae paragraffau 7 i 11 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol cynharach.

11. Mae paragraff 9 yn cadarnhau, ers gosod Memorandwm Rhif 2, y gwnaed diwygiadau pellach i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi a wnaeth ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

12. Mae paragraffau 12 i 17 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar welliannau arfaethedig llywodraethol ac anllywodraethol i'w nodi ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 2.

---

[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Tachwedd 2021

[6] Rydym hefyd yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyfnewid gohebiaeth â'r Gweinidog mewn perthynas â'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 ddiwedd mis Tachwedd. Mae gohebiaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gael ar wefan y Senedd

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Rhagfyr 2021

[8] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar gyfer y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, Rhagfyr 2021

13. Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi y gwnaed diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 o'r Bil.[9]

14. Mae Memorandwm Rhif 3 hefyd yn nodi y derbyniwyd gwelliannau anllywodraethol yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a gyflwynodd gymalau 18 a 25 newydd i'r Bil. Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi y byddai angen cydsyniad y Senedd ar y cymalau hyn pe byddent yn aros yn y Bil.[10] (Gweler isod, paragraffau 18 i 21, am ragor o fanylion.) Trafodwyd y cymal 25 newydd yn ein hadroddiad a osodwyd ym mis Tachwedd ar y Memoranda cynharach.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y diwygiadau a wnaed i'r Bil

15. Mae paragraffau 18 i 23 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y diwygiadau a wnaed i'r Bil.

Cymalau 1 a 4

16. O ran cymalau 1 a 4 o'r Bil, ym Memorandwm Rhif 3 dywed y Gweinidog:

> *"Rwy'n falch o allu hysbysu'r Senedd bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 1 a 4 yn mynd i'r afael â'm pryderon ynghylch gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru. Mae'r gwelliannau hyn yn dileu sefydliadau addysg bellach ac uwch Cymru o gwmpas dyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol o dan gymal 1 o'r Bil."*[11]

17. Ychwanegodd y Gweinidog, yn ei farn ef, fod y diwygiadau a wnaed i gymal 4 yn dileu'r angen i ofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4 o'r Bil, oherwydd "bod y darpariaethau bellach ond yn gymwys i addysg neu hyfforddiant yn Lloegr a ariennir gan awdurdodau Lloegr".[12]

Cymalau 18 a 25 (fel y'u rhifir yn fersiwn y Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin)

18. Mae Memorandwm Rhif 3 yn nodi bod cymal 18 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar effaith y rheolau ynghylch

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 12 i 14

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 15 i 17

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 18

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 19

cymhwysedd i ariannu pobl sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg bellach neu uwch ar lefelau sgiliau cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.[13]

19. Mae cymal 25 y Bil yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol cymeradwy, os nad yw eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Ym Memorandwm Rhif 3 mae'r Gweinidog yn nodi bod yr hawl i addysg am ddim ac adnoddau ar gyfer hawl o'r fath yn fater y byddai disgwyl i'r Senedd ddeddfu arno.[14]

20. Ym Memorandwm Rhif 3 dywed y Gweinidog, pe bai'r cymalau hyn yn aros yn y Bil, y byddai'r ddau gymal yn gofyn am gydsyniad y Senedd ond na fyddai'n fodlon argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad.[15]

21. Mae Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau'r safbwynt bod gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd i'r Bil ar 23 Tachwedd 2021, ac a dderbyniwyd wedi hynny yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Rhagfyr, wedi dileu cymalau 18 a 25 o'r Bil.[16]

Casgliad Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 3

22. Mae Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried mwyach bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4 o'r Bil.

23. Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

> *"Ein prif bryder oedd bod gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru yn fater datganoledig. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU yn parchu'r setliad datganoli ac yn osgoi gosod unrhyw ofynion statudol diangen ar sefydliadau yng Nghymru."*[17]

24. Mae Memorandwm Rhif 3 yn cadarnhau ymhellach farn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 15 o'r Bil (cymal 14 o'r Bil yn gynt fel y'i cyflwynwyd), fel y nodir yn y Memorandwm a osodwyd ym mis Gorffennaf 2021, a bod y Gweinidog yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r ddarpariaeth hon.

[13] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 20

[14] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 22

[15] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 20 a 22

[16] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 21 a 23

[17] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 28

2. Trafodaeth y Pwyllgor

25. Trafodwyd Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022.[18]

26. O ystyried cynnig Llywodraeth Cymru i gynnal dadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil ar 11 Ionawr, a chan ystyried y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, cytunwyd hefyd ar ein hadroddiad ar 10 Ionawr 2022.

Ein barn ni

27. Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â diwygiadau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil gan Dŷ'r Cyffredin, a hefyd cael gwared ar gymalau 18 a 25 newydd a ychwanegwyd at y Bil gan Dŷ'r Arglwyddi.

28. Fel y nodwyd yn gynharach yn ein hadroddiad, adroddwyd yn wreiddiol ar y Memorandwm cyntaf a Memorandwm Rhif 2 ar 24 Tachwedd 2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Gweinidog wedi ymateb i'r argymhelliad a'r casgliadau a wnaed yn yr adroddiad hwnnw.

29. Gofynnodd Argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cynharach i'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pa welliannau y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu gweld yn cael eu gwneud i gymalau 1 a 4 o'r Bil er mwyn iddi argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil.

30. Nodwn fod diwygiadau bellach wedi'u gwneud i'r Bil sydd wedi arwain Llywodraeth Cymru i benderfynu nad oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mwyach mewn perthynas â chymalau 1 a 4.

Casgliad 1. Er ein bod yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch cymalau 1 a 4, byddai wedi bod yn well, er mwyn cynorthwyo gwaith craffu'r Senedd ar y memoranda cydsyniad deddfwriaethol, pe bai'r Gweinidog wedi darparu rhagor o fanylion o'r cychwyn cyntaf ynglŷn â'r newidiadau penodol yr oedd am eu gweld yn cael eu gwneud i'r Bil er mwyn argymell y dylid rhoi cydsyniad.

Casgliad 2. Nodwn farn y Gweinidog ynghylch cymal 15 y Bil (cymal 14 yn y Bil yn wreiddiol fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ac fel y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad cynharach) ac rydym yn cytuno y dylid ceisio cydsyniad y Senedd.

[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Ionawr 2022

31. Roedd Argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cynharach yn gofyn i'r Gweinidog, cyn y ddadl yn y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal 25 newydd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Nodwn fod y cymal hwn bellach wedi'i dynnu o'r Bil.

32. Roedd Casgliad 3 yn ein hadroddiad cynharach yn nodi ein barn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 35 yn y Bil (cymal 25 yn y Bil yn wreiddiol fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi). Mae'r cymal hwn bellach wedi'i rifo yn gymal 31 yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, nid yw'r Gweinidog wedi ymateb yn ffurfiol i'n hadroddiad cynharach a'r casgliad penodol hwn a wnaed yn yr adroddiad hwnnw.

Casgliad 3. Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd mewn perthynas â chymal 31 o'r Bil.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog, cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau pam na ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 31 y Bil fel y'i diwygiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.